# Deall gwaith llywodraethu perygl llifogydd ac erydu arfordirol effeithiol

# Rhaglen Ymchwil ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Dyddiad: Tachwedd 2021
Prosiect: FRS17186

Roedd yr ymchwil hon wedi asesu effeithiolrwydd y gwaith llywodraethu perygl llifogydd ac arfordirol cyfredol yng Nghymru a Lloegr ac a yw'n addas i'r diben ar gyfer y dyfodol wrth wynebu risgiau cynyddol a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Bydd y canfyddiadau'n werthfawr ar gyfer llywio gweithrediad y strategaethau cenedlaethol diweddaraf ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'r ymchwil hefyd wedi creu canllawiau ymarferol ar gyfer llywodraethu partneriaeth ar gyfer llunwyr polisi ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes  rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a Lloegr.

**Cefndir**

Mae llywodraethu yn ymwneud â sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u gweithredu, a'r ffordd mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n cael eu dwyn i gyfrif amdanynt. Mae llifogydd ac erydu arfordirol yn effeithio ar dai, busnesau, iechyd, trafnidiaeth, cyfleustodau a'r amgylchedd. Mae llywodraethu rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn gymhleth, ac mae cyrff cyhoeddus, sefydliadau preifat a grwpiau cymunedol oll yn chwarae rhan. Felly, mae dull eang yn hanfodol ar gyfer adeiladu a chynnal cadernid cenedlaethol.

**Dull**

Gwnaethom gynnal oddeutu 60 o gyfweliadau gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr yn lleol ac yn genedlaethol, yn ogystal â dadansoddiad manwl o bolisïau a deddfwriaethau.

Nod yr ymchwil oedd dysgu o astudiaethau achos a phartneriaethau/grwpiau dethol a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r heriau gwahanol sy'n wynebu rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Gwnaethom nodi enghreifftiau o arferion da ac egwyddorion llywodraethu effeithiol, gan nodi hefyd lle mae llywodraethu lleol yn cael ei gefnogi a'i gyfyngu gan ddull aml-lefel o lywodraethu o fewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

**Canlyniadau**

Mae ein canfyddiadau'n nodi lle y gellid gwella'r elfennau gwahanol o lywodraethu i wella effeithiolrwydd rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r rhain wedi'u rhannu yn saith prif thema: cydlyniant llywodraethu; adnoddau; ymaddasu; cynllunio gofodol; yswiriant; rheoli defnydd tir; adfer natur.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r astudiaethau achos yn cynnwys dysgu rhyng-bartneriaethol gwell, ynghyd â rhannu arferion da a heriau yr adroddwyd amdanynt yn barhaus. Mae'r canfyddiadau ar draws partneriaethau wedi'u rhannu yn bum brif thema: strwythur a diben; cydberthnasau â chwaraewyr; adnoddau a chapasiti ; atebolrwydd a dilysrwydd; cysondeb rhwng y lefelau llywodraethu.

Gwnaethom hefyd greu canllawiau ymarferol (ar ffurf cynlluniau teithio) yn seiliedig ar y themâu hyn, lle gall partneriaethau asesu a dysgu sut i wella eu trefniadau llywodraethu. Mae'r dysgu hwn yn hanfodol ar gyfer gwella effeithiolrwydd partneriaethau presennol a gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.

**Casgliad**

Mae'r adroddiadau a'r canllawiau yn darparu asesiad beirniadol o gyflwr presennol rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a Lloegr, gan nodi cryfderau, gwendidau a bylchau yn y llywodraethu, wrth dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer gwella effeithiolrwydd.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS17186, yr adroddir amdano'n fanwl yn yr allbynnau canlynol:

**Adroddiad:** FRS17186
**Teitl:** Gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith llywodraethu perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a Lloegr

**Adroddiad:** FRS17186/2
**Teitl:** Cefnogi rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol trwy weithio mewn partneriaeth

**Sleidiau ar gyfer y Crynodeb:** FRS17186/3
**Teitl:** Gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith llywodraethu perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a Lloegr

**Crynodeb:** FRS17186/4
**Teitl:** Cefnogi rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol trwy weithio mewn partneriaeth

**Fframwaith Hunanasesu**FRS17186/5
**Teitl:** Mesur effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r bartneriaeth

**Cynllun Teithio:** FRS17186/6
**Teitl:** Partneriaethau Cyfreithlon

**Cynllun Teithio:** FRS17186/7
**Teitl:** Dynameg partneriaeth fewnol

**Cynllun Teithio:** FRS17186/8
**Teitl:** Cydlynu ac integreiddio ar draws y sectorau

**Tachwedd 2021**

**Rheolwr y prosiect:** Kate Kipling, tîm Ymchwil Llifogydd

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: https://www.gov.uk/government/organisations/flood-and-coastal-erosion-risk-management-research-and-development-programme

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd